**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

28 Gorffennaf 2023

Annwyl gyfaill

Deddfwriaeth diwygio etholiadol

Rydym yn ysgrifennu i dynnu eich sylw at gyhoeddiad y Prif Weinidog ar 27 Mehefin 2023 y disgwylir i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 gynnwys tri Bil yn ymwneud â diwygio etholiadol:

- Bil i ddiwygio gweinyddiaeth etholiadol. Dywedodd y Prif Weinidog mai Bil fyddai hwn:

  *"...i wireddu ymrwymiad y Llywodraeth i leihau'r diffyg democrataidd yng Nghymru, a datblygu system etholiadol sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain. Bydd y Bil hwn yn cryfhau gweinyddiaeth etholiadol hefyd drwy sefydlu bwrdd rheoli etholiadol, a chymryd camau i sicrhau bod pob pleidleisiwr sy'n gymwys yng Nghymru ar y gofrestr etholiadol, ac yn diwygio'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymunedol ac etholiadol."*

- Bil i ddiwygio'r Senedd, gan adeiladu ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ynghylch maint y Senedd, y system etholiadol a'r trefniadau ffiniau. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r Bil hwn:

*"...yn creu Senedd sy'n gallu cynrychioli a gwasanaethu pobl Cymru yn well, gyda mwy o allu i graffu, llunio deddfau a galw'r weithrediaeth i gyfrif."*

- Bil i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd.

Rhoddodd y Prif Weinidog rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth arfaethedig mewn datganiad ysgrifenedig ar 27 Gorffennaf 2023.

Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r tri Bil hyn yn ystod tymor yr hydref 2023. Rydym yn rhagweld y gallai un neu fwy o'r Biliau hyn fod o ddiddordeb i chi, ac y gallai fod gennych wybodaeth a thystiolaeth berthnasol a fyddai'n ddefnyddiol i lywio gwaith craffu pwyllgorau'r Senedd.

## Gwaith craffu'r pwyllgorau

Mae Pwyllgor Busnes y Senedd yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch cyfeirio Biliau at bwyllgorau cyfrifol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 (ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil), ac am bennu amserlen ar gyfer cynnal gwaith craffu o'r fath. Bydd y Pwyllgor Busnes yn cyflwyno adroddiad ar ei benderfyniadau mewn perthynas â phob un o'r tri Bil diwygio etholiadol maes o law.

Mae Pwyllgorau sy'n craffu ar Filiau yn gyfrifol am benderfynu sut y maent yn mynd ati i wneud eu gwaith craffu, gan gynnwys sut y maent yn casglu tystiolaeth i lywio eu casgliadau a'u hargymhellion.

Er nad oes modd pennu cyn i bob Bil gael ei gyflwyno sut yn union y bydd ein Pwyllgorau yn gwneud eu gwaith craffu, gan gynnwys sut a phryd y byddwn yn casglu tystiolaeth, rydym am wneud yn siŵr bod ein gwaith craffu yn cael ei lywio gan brofiadau, gwybodaeth a safbwyntiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl a'r cymunedau y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt. Rydym yn annog unrhyw un sydd ag arbenigedd neu brofiad o'r materion y mae'r Biliau'n eu codi i rannu eu barn, gan wybod yn iawn bod eu barn yn cael ei chroesawu a'i gwerthfawrogi.

Gwyddom y gall paratoi tystiolaeth i lywio gwaith craffu pwyllgor fod yn heriol, yn enwedig o fewn yr amserlenni tynn a all fod yn gysylltiedig â gwaith craffu deddfwriaethol, a phan allai'r wybodaeth sydd ar gael cyn cyflwyno Bil fod yn gyfyngedig. Serch hynny, rydym yn gobeithio y bydd y llythyr hwn yn gymorth i roi hysbysiad cynnar y bydd un neu fwy o'n Pwyllgorau yn ceisio tystiolaeth mewn perthynas â'r tri Bil hyn maes o law.

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae Ymchwil y Senedd wedi coladu peth gwybodaeth bellach am y Biliau a ragwelir, gan gynnwys lincs i ffynonellau gwybodaeth eraill, mewn erthygl ddiweddar ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses ddeddfwriaethol, gan gynnwys rolau pwyllgorau'r Senedd o ran craffu ar Filiau, ar gael ar wefan y Senedd.

Mae gwybodaeth am roi tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd ar gael ar wefan y Senedd.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Biliau, y broses ddeddfwriaethol, neu ddulliau gweithredu posibl ein Pwyllgorau o ran eu gwaith craffu, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod drwy'r cyfeiriadau a ganlyn:

- Y Pwyllgor Biliau Diwygio: senedddiwygio@senedd.cymru
- Y Pwyllgor Cyllid: seneddcyllid@senedd.cymru
- Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: senedddcc@senedd.wales
- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: seneddtai@senedd.cymru

Mae croeso i chi rannu'r llythyr hwn ag unrhyw un arall a allai fod â diddordeb.

Yn gywir

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

John Griffiths
Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English